



## **Cofnodion Cyfarfod Rhithiol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd brynhawn Iau y 20<sup>fed</sup> o Fai 2021 2:00 y.p.**

### **Yn Bresennol**

Iona Evans	Cadeirydd
Hywel Madog Jones	Is-gadeirydd
Margaret Roberts	Trysorydd

Duncan Brown, Robert Evans, John Griffith, Dafydd Lewis, Carys Parry, Gwyn Roberts, Iwan Roberts, Alan Williams, Phillip Williams a Jackie Willmington (Ysgrifennydd Cofnodion).

### **1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb gan ddweud ei bod yn falch o weld cymaint o aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn mynychu'r cyfarfod.

### **2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Gareth Wyn Jones, Ysgrifennydd y Gymdeithas, oherwydd problemau technegol, a hefyd oddi wrth Eirian Davies ac Elizabeth Roberts.

### **3. DERBYN COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR GWAITH A GYNHALIWDYD AR Y 18<sup>fed</sup> O Chwefror 2021**

Cynigiodd Gwyn Roberts ac eiliodd Rob Evans dderbyn cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir.

### **4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

#### **(i) Cofnod 4i): Ystyried rhinweddau cyfleusterau tanysgrifiad Zoom a Google**

Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at ddogfen a ddsbarthwyd drwy e-bost a gyflwynodd y cyfleusterau ar gael i'r PG o ganlyniad i gofrestru'r Gymdeithas gyda "Google Workspace".

Ar awgrym Dafydd Lewis, cytunodd yr Is-gadeirydd i ymchwilio'r cyfleusterau a gynigir i elusennau gan "Charity Digital" gan nodi y byddai hyfforddiant yn ddefnyddiol (**pwynt gweithredu**).

Esboniodd yr Is-gadeirydd ei fod, er hwylustod, wedi dechrau sefydlu cyfeiriadau e-bost i aelodau'r PG gyda'r enw parth (domain name) "edwardllwyd.org" Mynegwyd siom na ddefnyddiwyd terfyniad ".cymru" a chytunwyd i ail-ystyried.

Adroddwyd i'r Is-gadeirydd a Jackie gynnal cyfarfod drwy "Meet" gyda chanlyniadau cymysg o ran ansawdd sain a llun a nodwyd bod angen rhoi prawf ar newid y

gosodiadau. Esboniwyd y byddai'n ddymunol cynnal cyfarfod arbrofol gyda mwy o aelodau a phenderfynwyd delio â datblygu'r defnydd o "Workspace" drwy sefydlu is-bwyllgor gyda'r Is-gadeirydd, y Cadeirydd, yr Ysgrifennydd, Dafydd Lewis a Jackie Willmington.

(ii) Cofnod 7i): Cysylltu gyda'r mudiad "Byw yn Iach, Gwynedd"

Dywedodd yr Is-gadeirydd nad oedd cynnydd i'w adrodd oherwydd y pandemig. Mynegodd fwriad o gysylltu â Ffiona Jones pan fydd y cyfyngiadau yn dod i ben.

## 5.a) TREFNIADAU'R EISTEDDFOD AMGEN

Mynegodd y Cadeirydd siom na chynhwyswyd "Erthygl addas i'r Naturiaethwr" yn rhestr testunau'r Eisteddfod Amgen.

Ychwanegwyd nad oedd yr Ysgrifennydd wedi derbyn ymateb i ymholiad y Gymdeithas ynglŷn â recordio darlith rithiol ar gyfer gwefan yr Eisteddfod Amgen.

## b) TREFNU EIN CYSTADLEUAETH EIN HUNAIN

Cyfeiriodd y Cadeirydd at drafodaeth y PG drwy e-bost ynglŷn â chynnig gwobr o £150 am erthygl gan ddysgwr. Adroddodd Rob a Dafydd eu bod yn bwriadu cyhoeddi'r gystadleuaeth yn "y Wennol" (papur i ddysgwyr), ac ar Drydar yn ogystal â drwy'r colegau, y Mentrau Iaith a phapurau bro. Awgrymodd Golygydd y Naturiaethwr ddyddiad cau o 1<sup>af</sup> Gorffennaf. Esboniwyd y bwriad o gyhoeddi gwaith yr enillwyr yn y Naturiaethwr ac o ystyried cyhoeddi rhai o'r ceisiadau agos at y brig yn y Naturiaethwr neu'r Cylchlythyr. Cadarnhawyd y byddai arddull weddol anffurfiol yn dderbyniol. Cytunwyd yn ddiwrthwynebiad i weithredu'r cynllun.

Nid oedd cefnogaeth i'r syniad o gynnal cystadleuaeth agored eleni.

Gofynnodd y Trysorydd hanes y gystadleuaeth a noddwyd gan y Gymdeithas yn Eisteddfod yr Urdd. Esboniodd yr Is-gadeirydd fod cyfathrebu yn anodd ar ôl i'r Urdd golli swyddi ond dywedodd ei fod yn bwriadu ceisio cysylltu eto.

## 6. Y GYNHADLEDD FLYNDDOL

Adroddwyd i Elizabeth Roberts roi gwybod bod naw aelod wedi cofrestru ar gyfer y Gynhadledd gyda saith ystafell wedi'u harchebu. Nodwyd er bod lle i 40 fel arfer yn yr ystafell cyfarfod arfaethedig na chaniateid mwy na 10 o dan y cyfyngiadau Covid presennol. Dywedwyd y byddai'n bosibl gohirio eto ond byddai canslo'n golygu colli'r blaendal. Penderfynwyd gohirio'r Gynhadledd tan 2022.

Penderfynwyd na fyddai'n ddymunol gohirio'r Cyfarfod Blynnyddol eto a dylid trefni'i gynnal yn rhithiol. Nodwyd bod angen cworwm o 20 ac awgrymwyd y byddai mwy yn mynychu'r cyfarfod petai'n bosibl trefnu darlith wedyn. Awgrymwyd enwau Celfin Jones a Nia Haf Jones a chytunodd y Cadeirydd i ofyn i'r Ysgrifennydd gysylltu â nhw (**pwynt gweithredu**). Awgrymwyd trefnu dyddiad addas i'r siaradwr gwadd gan nodi nad oedd rhaid cynnal y cyfarfod ar y Sadwrn eleni. Cytunodd y Cadeirydd i gysylltu â Goronwy Wynne ynglŷn â chynnal y Cyfarfod yn rhithiol (**pwynt gweithredu**). Tynnodd Gwyn sylw y byddai rhaid cael y manylion yn fuan er mwyn hysbysu'r digwyddiad yn y Cylchlythyr.

## 7. Y DEFNYDD A WNEIR O RODD ARIANNOL ANNE GWYNNE I GOFFRAU'R GYMDEITHAS

Gofynnwyd i aelodau'r PG baratoi cynigion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf (**pwynt gweithredu**).

Dywedodd y Trysorydd iddi ddiolch i Anne'n anffurfiol. Mynegodd y Cadeirydd y bwriad o ofyn i'r Ysgrifennydd anfon llythyr ati ar ran y PG (**pwynt gweithredu**).

## 8. TRAFOD FFURF NEU LEOLIAD CYFARFOD MIS AWST O'R PWYLLGOR

Mynegodd nifer o aelodau ddymuniad i gwrdd wyneb yn wyneb ym mis Awst, petai rheolau Covid yn caniatáu, o ystyried na fyddai mor gyfleus i deithio ym mis Tachwedd nac ym mis Chwefror. Tynnwyd sylw nad yw Festri Noddfa'n ddigon mawr i ganiatáu cynnal pellter cymdeithasol.

Mynegodd ychydig o aelodau bryder ynglŷn ag ymgynnull ac felly awgrymwyd ceisio llogi ystafell gyda chyfleusterau digidol a fyddai'n galluogi dewis rhwng teithio a chwrdd yn rhithiol.. Cytunwyd i ofyn i'r Ysgrifennydd wneud ymholiadau rhagarweiniol ynglŷn â lleoliadau addas yn ardal Aberystwyth (**pwynt gweithredu**). Gwirfoddolodd Jackie roi cymorth os bydd angen, gan ei bod yn byw yn yr ardal.

## 9. ADRODDIADAU'R SWYDDOGION A'R IS-BWYLLGORAU

### i) Is-Bwyllgor Llên Natur

Tynnodd Duncan sylw at uchafbwyntiau'r adroddiad a ddosbarthwyd drwy e-bost.

- Cymuned Llên Natur ar Weplyfr– Cafwyd niferoedd boddhaol o aelodau, sylwadau ac ymatebion. Mae annog pawb i gyfrannu drwy'r Gymraeg yn llwyddiannus.
- Llygaid Bach Llên Natur – Mae'r ymateb wedi bod yn siomedig.
- Cofnodion bywyd gwyllt – Diolchwyd i Euros ap Hywel am goladu cofnodion 2020.
- Y Bwletin Misol – Mae'n datblygu i fod yn fwy cwmpasog a chynhwysol.
- Panel Enwau – Gohiriwyd gwaith ar fwsoglau a gwenyn oherwydd y pandemig. Mae rhestru adar diflanedig yn mynd rhagddo. Cwblhawyd drafft cyntaf o restr o enwau Cymraeg gwyfynod "micro".
- Gwefan Llên Natur – Mae defnydd uniongyrchol gan yr aelodau yn gymharol isel ond mae'n gronfa bwysig o wybodaeth. Diolchwyd i Brenda Jones a Rwth Tomos am eu gwaith clodwiw yn trawsgrifio dyddiaduron fferm.

Diolchodd y Cadeirydd i Duncan am ei waith

### ii) Y Trysorydd

Cyfeiriodd y Trysorydd at y fantolen a ddosbarthwyd drwy e-bost. Dangoswyd incwm o £1,823.63 rhwng 18.02.2021 a 18.05.2021 gan gynnwys rhodd o £500 oddi wrth Anne Gwynne yn dilyn gwerthiant ei llyfr. Gwariant yn ystod y cyfnod oedd £4,237.39. Costau cyhoeddi a dosbarthu'r Cylchlythyr a'r Naturiaethwr oedd yr eitemau mwyaf.

Bu £43,211.10 mewn llaw gan gynnwys £17,353.12 yn nau fond Banc Hodge. Rhestrwyd gwerth tua £2,110 o eitemau y disgwyliid eu talu yn y dyfodol agos, gan gynnwys llogi Festri'r Noddfa i dri chyfarfod y PG.

Tynnwyd sylw y byddai bond £7,000 Banc Hodge yn aeddfedu ym mis Mehefin a phenderfynwyd ail-fuddsoddi.

iii) Yr Ysgrifennydd Aelodaeth

Dywedodd yr Ysgrifennydd Aelodaeth fod 5 o bobl wedi ymaelodi ers 1<sup>af</sup> Ionawr. Adroddodd i 535 aelod dalu, gan gynnwys 70 a dalodd â siec. Dywedwyd bod 58 aelodau sydd fel arfer yn anfon siec wedi methu â thalu eleni a bwriadwyd eu hatgoffa.

Tynnodd Rob sylw y byddai ar banel webinar Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar nos Fercher 26<sup>ain</sup> Mai yn trafod "Cefnogi Siaradwyr Newydd". Dywedodd ei fod yn obeithiol y gallai'r Gymdeithas chwarae rhan werthfawr i helpu dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

Diolchodd y Cadeirydd i Rob am ei waith a dymunodd yn dda iddo yn y webinar.

iv) Trefnyddion Gweithgareddau

Dywedodd Hywel Madog fod rhaglenni teithiau maes mis Mehefin Gwynedd a Môn a'r De a'r Canolbarth yn barod i'w huwchlwytho i'r wefan. Adroddodd Iwan ei fod wrthi'n casglu'r manylion angenrheidiol. Cytunwyd na fyddai'n ymarferol cyhoeddi rhaglenni'r gaeaf yng Nghylchlythyr mis Medi.

Dywedodd y Cadeirydd fod Eirian Davies wedi gofyn i'r PG drafod caniatáu mwy o aelodau ar deithiau yn dilyn rheolau Llywodraeth Cymru a ddaeth i rym ar 17<sup>eg</sup> Mai. Cytunwyd i ganiatáu hyd at 50 o 1<sup>af</sup> Mehefin ymlaen ond awgrymwyd gadael i'r arweinydd benodi nifer llai petai prinder lleoedd parcio. Pwysleisiodd yr Is-gadeirydd fod rhaid i'r drefn bresennol o gofrestru ymlaen llaw barhau.

Tynnwyd sylw y dylid cuddio cyfeiriadau e-bost aelodau wrth anfon manylion teithiau atynt, drwy'u rhoi yn y blwch "bcc".

v) Golygydd y Cylchlythyr

Apeliodd y Golygydd am gyfraniadau o bob math, ond yn enwedig adroddiadau o deithiau, i'r rhifyn nesaf. Atgoffodd y PG y byddai'n croesawu cyfuniadau o "Lun a cherdd" i'r clawr. Nodwyd bod angen cyfeiriadau e-bost newydd y PG (gweler eitem 4i) erbyn y dyddiad cau, 20<sup>fed</sup> Mehefin.

vi) Golygydd y Naturiaethwr

Adroddodd Golygydd y Naturiaethwr ei fod wedi derbyn dwy erthygl ac yr oedd wrthi'n chwilio am fwy. Dywedodd fod rhaid derbyn cyfraniadau erbyn canol mis Gorffennaf. Nododd ei fod wedi sefydlu "Dropbox" i rannu eitemau gyda'r dylunydd. Mynegodd fwriad o ofyn unwaith eto am gopiâu pdf o hen rifynnau o'r Naturiaethwr er mwyn eu gosod ar y wefan.

**11. UNRHYW FATER ARALL** Dim

**12. DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF** 19<sup>eg</sup> Awst

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a dywedodd y byddai'n siarad ar raglen Radio Cymru "Galwad Cynnar" am tua 7:20 ar ddydd Sadwrn 22<sup>ain</sup> Mai.